CANOLFAN CYMRAEG I OEDOLION GOGLEDD CYMRU
WELSH FOR ADULTS CENTRE NORTH WALES

IS-GRŴP ANSAWDD

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Is-Grŵp ddydd Mercher, Hydref 10 am 10.30yb yn ystafell Madog, Coleg Llandrillo Cymru, Llandrillo yn Rhos.

Presennol: Ifor Gruffydd (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Haydn Hughes (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Gwenan Owain (Cadeirydd, Coleg Llysfasi); Dafydd Rhys (Coleg Harlech WEA); Rhian McCarthy (Coleg Llandrillo Cymru); James Nelson (Coleg Llandrillo Cymru); Ifan Prys (Nant Gwrtheyrn); Dr Ioan Ap Dewi (Prifysgol Bangor); Howard Edwards (Popeth Cymraeg); Elwyn Hughes (Prifysgol Bangor); Richard Lewis (Coleg Garddwriaeth Cymru); Alan Gordon (Coleg Garddwriaeth Cymru); Pam Evans-Hughes (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Jina Gwyrfai (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Iwan Davies (Ysgrifennydd)

Ymddiheuriadau: Diane Martin (Coleg Glannau Dyfrdwy); Non Lewis Edwards (Coleg Glannau Dyfrdwy); Sharon Owen (Coleg Menai); Andrew Hepton (Coleg Harlech WEA)

Gweithredu

1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Croesawodd Gwenan Owain, Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 2 MAI 2007

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mai 2007 yn gywir.

3. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi gan fod nifer o'r pwyntiau gweithredu yn codi ar yr agenda.

4. CYNLLUN ANSAWDD

Cafwyd adroddiad gan HH, mynegodd bod y cynllun ansawdd wedi cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ond byddant angen trafod rhai agweddau efo'r Ganolfan. Nodwyd y ffaith ein bod am ddefnyddio dogfennaeth cyson ar nifer o

agweddau yn brif gryfder y cynllun. ***Bydd HH yn bwydo'r wybodaeth yn ôl at y darparwyr.*** **HH**

5. Y DREFN ARSYLWI

Penderfynwyd peilota y drefn arsylwi efo NEWI, Coleg Iâl, Coleg Llysfasi a darpariaeth Coleg Llandrillo Cymru y flwyddyn yma ac yna'r darparwyr eraill y flwyddyn wedyn. ***Mae'n hanfodol bwysig fod pob darparwr yn anfon amserlenni tiwtoriaid cyn gynted â phosib er mwyn cael dechrau ar y drefn arsylwi.*** Y bwriad yw dechrau ar yr arsylwi 12fed Tachwedd 2007. Byddwn yn gwerthuso'r broses yn llawn efo'r Tîm Arsylwi a hefyd gyda'r tiwtoriaid a arsylwyd. bydd y Ganolfan yn cynnal sesiynau hyfforddi i'r tiwtoriaid a fydd yn cael eu harsylwi. **Darparwyr**

6. CYNLLUN DYSGU UNIGOL

Mynegodd HH bod cyfarfodydd wedi eu cynnal gyda phob darparwr i drafod cynllun dysgu unigol ac roedd pawb yn gefnogol iawn i'r syniad. Mae hyn yn codi yn bennaf o arolwg Estyn ym Mhort Talbot a Castell Nedd a'r bwriad oedd cael polisi a fyddai'n seiliedig ar argymhellion Estyn. Mae rhai darparwyr yn defnyddio cynlluniau sydd yn cyfateb i ofynion Estyn. Mae'r rhan fwyaf o'r darparwyr am ddefnyddio neu addasu'r cynllun y mae HH wedi ei baratoi. ***Bydd angen i HH anfon copïau electroneg o'r ffurflenni at y darparwyr. Bydd angen i'r darparwyr anfon copi at HH o'r cynlluniau y maent yn bwriadu eu defnyddio.*** **HH Darparwyr**

Derbyniwyd yr amlinelliad o'r broses uchod yn ddiwrthwynebiad.

7. CYNLLUN DATBLYGU PROFFESIYNOL

Ni fydd y Ganolfan yn ymyrryd efo cynlluniau unrhyw ddarparwr am unrhyw aelod o staff sydd eisoes yn rhan o gynllun datblygu mewnol. Gofynnir yn yr achosion hynny i bob darparwr ganfod anghenion hyfforddiant eu staff CiO ac yna eu hanfon ymlaen at y Ganolfan. Bydd cynlluniau datblygu y rhain wedyn yn cynnwys y wybodaeth yna ac unrhyw anghenion fydd wedi ei amlygu yn y broses arsylwi. Bydd y Ganolfan yn creu cynllun i'r tiwtoriaid rhan amser mewn tair elfen, sef unrhyw anghenion hyfforddi a nodwyd gan y cyflogwyr, anghenion a amlygwyd yn y broses arsylwi a dymuniadau hyfforddi a datblygu'r tiwtor. Bydd y Ganolfan yn trefnu cyfweld y tiwtoriaid rhan amser i'r perwyl hwn. Bydd y Ganolfan yn rhoi adborth yn ôl i'r darparwyr o'r hyfforddiant y mae eu staff wedi ei fynychu gogyfer â chynlluniau'r darparwyr.

Derbyniwyd yr amlinelliad o'r broses uchod yn ddiwrthwynebiad.

8. PANELI STAFF / MYFYRWYR

Mae nifer o ddarparwyr heb baneli staff/myfyrwyr. Rydym yn annog pawb i gynnal paneli i roi cyfle i'r myfyrwyr fynegi barn***. Bydd HH angen tystiolaeth ee. cofnodion neu adroddiad o unrhyw gyfarfod gan ddarparwyr.*** **Darparwyr**

Derbyniwyd hyn yn ddiwrthwynebiad.

9. ADRODDIADAU HUNAN ASESU A CYNLLUN DATBLYGU ANSAWDD

Bydd angen i'r Ganolfan gyflwyno'r AHA i Lywodraeth Cynulliad Cymru erbyn Mawrth 2008, ac er mwyn cyflawni hynny ***bydd angen copïau o adroddiadau hunan asesu a chynlluniau Datblygu Ansawdd y darparwyr erbyn canol mis Ionawr 2008***. Pan fydd y Ganolfan yn derbyn rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru am union natur y wybodaeth fydd ei angen byddwn yn ei anfon at y darparwyr. **Darparwyr**

10. ADRODDIADAU ESTYN

Penderfynwyd y bydd adroddiadau Estyn yn eitem sefydlog ar yr agenda o hyn ymlaen. Bydd HH yn nodi pwyntiau neilltuol o'r adroddiadau a fydd o ddiddordeb ac o fudd i'r darparwyr.

11. U.F.A.

Arholiadau – Mae trefn CBAC wedi newid, y Ganolfan fydd yn gyfrifol am yr ymrestriadau ac yn eu hanfon at CBAC***. Dylai'r Ganolfan dderbyn yr ymrestriadau wythnos cyn y dyddiad cau gan pob darparwr.*** Dylai pob darparwr hyrwyddo'r arholiadau yn ystyrlon. Os bydd y darparwyr yn cael problemau efo hyrwyddo yna mae croeso iddynt gysylltu efo'r Ganolfan. **Darparwyr**

12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dydd Mercher, 9fed Ionawr 2008 am 10.30yb, Ystafell Madog, Coleg Llandrillo Cymru, Llandrillo yn Rhos.